**Memorandwm Esboniadol ar gyfer** Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau ac Ymddygiad Aelodau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025.

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau ac Ymddygiad Aelodau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Jayne Bryant AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**

**21 Tachwedd 2025**

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio gofynion presennol y cod ymddygiad enghreifftiol ar gyfer awdurdodau perthnasol (y Cod) i sicrhau bod ei ofynion yn gyson â'r nodweddion gwarchodedig a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a bennir ar hyn o bryd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010). Mae'r diwygiadau'n sicrhau y bydd y Cod yn barod ar gyfer unrhyw newidiadau a wneir yn y dyfodol, drwy beri y bydd unrhyw newidiadau a wneir i'r nodweddion gwarchodedig a bennir yn Neddf 2010 yn gymwys heb fod angen diwygio deddfwriaeth ymhellach. Gwneir yr un diwygiadau i Orchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001.

1.2 Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn dileu'r gwaharddiad oes sy'n atal cyn-aelodau a chyn-gyflogeion o awdurdod perthnasol rhag gwasanaethu fel aelodau annibynnol o bwyllgorau safonau'r awdurdod y'u hetholwyd iddo'n flaenorol neu y buont yn gweithio ynddo'n flaenorol, neu bwyllgor safonau cyd-bwyllgor corfforedig y mae'r awdurdod perthnasol yn awdurdod cyfansoddol ohono neu awdurdod Parc Cenedlaethol. Mae'r newid hwn yn cynnwys cyfnodau aros mewn cysylltiad â chyn-aelodau a chyn-swyddogion penodedig.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn ofynnol i sicrhau bod Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001 (Gorchymyn 2001) a Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008 (Gorchymyn 2008) yn adlewyrchu'r diffiniad o nodweddion gwarchodedig a gynhwysir yn adran 4 o Ddeddf 2010 sydd wedi ei ddiweddaru ers i'r ddwy set hyn o offerynnau statudol gael eu pasio. Mae'r Rheoliadau hyn yn sicrhau y bydd unrhyw newidiadau a wneir yn y dyfodol i'r diffiniad o nodweddion gwarchodedig yn gymwys i'r offerynnau statudol hyn yn awtomatig. Mae'r Rheoliadau hefyd yn ymgorffori cyfeiriad at ddyletswydd economaidd-gymdeithasol y sector cyhoeddus a geir yn adran 1 o Ddeddf 2010.

**Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Deddf 2000)**

3.2 O dan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000"), gwneir darpariaethau ynghylch ymddygiad aelodau a chyflogeion llywodraeth leol. Mae adran 49(2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r egwyddorion sy'n llywodraethu ymddygiad aelodau ac aelodau

cyfetholedig o awdurdodau perthnasol yng Nghymru. Mae adran 50(2) yn darparu ar gyfer cod ymddygiad enghreifftiol ar gyfer yr aelodau hynny.

3.3 Mae adran 53(1) o Ddeddf 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod perthnasol yng Nghymru sefydlu pwyllgor safonau. Swyddogaethau cyffredinol pwyllgor safonau o dan adran 54(1) o Ddeddf 2000 yw hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau ac aelodau cyfetholedig o "awdurdod perthnasol" a'u cynorthwyo i ufuddhau i God Ymddygiad yr awdurdod.

**Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 ("Rheoliadau 2001")**

3.4 Mae Rheoliadau 2001 yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â maint, cyfansoddiad a thrafodion pwyllgorau ac is-bwyllgorau safonau, ynghyd â phenodi ac ailbenodi aelodau annibynnol i bwyllgorau o'r fath, a thymor swydd yr aelodau hynny.

**Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001 ("Gorchymyn 2001")**

3.5 Sefydlodd Gorchymyn 2001 yr egwyddorion moesegol craidd sy'n llywio ymddygiad aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig o awdurdodau perthnasol yng Nghymru. Mae'n nodi deg egwyddor gyffredinol o ran ymddygiad sy'n deillio o Saith Egwyddor Nolan ar gyfer Bywyd Cyhoeddus, ynghyd â'r ddyletswydd i gynnal y gyfraith, stiwardiaeth, a chydraddoldeb a pharch. Mae'r egwyddorion yn gosod sylfaen ar gyfer y Fframwaith Safonau Moesegol Llywodraeth Leol yng Nghymru.

**Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008 ("Gorchymyn 2008")**

3.6 Mae Gorchymyn 2008 yn nodi cod ymddygiad gorfodol ar gyfer aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig o awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'n rhan o'r fframwaith moesegol o dan Ran III o Ddeddf 2000. Bwriedir iddo sicrhau safonau ymddygiad uchel gan aelodau. Rhaid i awdurdodau fabwysiadu eu cod eu hunain yn seiliedig ar y Cod, ac mae'n ofynnol i aelodau ymrwymo i god eu hawdurdod pan fyddant yn dod i'w swyddi.

**Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau ac Ymddygiad Aelodau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025**

3.7 Mae'r Rheoliadau hyn yn mewnosod i erthygl 2 o Orchymyn 2001 ddiffiniad o "nodweddion gwarchodedig" drwy gyfeirio at y diffiniad yn adran 4 o Ddeddf 2010. Maent hefyd yn diwygio Egwyddor 7 (cydraddoldeb a pharch) o'r Atodlen i Orchymyn 2001 drwy roi "nodweddion gwarchodedig neu eu hamgylchiadau economaidd-

gymdeithasol” yn lle’r cyfeiriad at “gender, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd”.

3.8 Mae’r Rheoliadau hefyd yn mewnosod ym mharagraff 1 o’r Cod fel y’i nodir yn yr Atodlen i Orchymyn 2008 ddiffiniad o “nodweddion gwarchodedig” drwy gyfeirio at y diffiniad yn Neddf 2010, ac yn diwygio paragraff 4 i roi “nodweddion gwarchodedig neu eu hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol” yn lle’r cyfeiriad at “rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd”.

3.9 Mae’r Rheoliadau hefyd yn gwneud diwygiadau i Reoliadau 2001 gyda’r effaith o ehangu’r gronfa o ymgeiswyr i fod yn aelodau o bwyllgor safonau awdurdod perthnasol neu gyd-bwyllgor corfforedig er mwyn iddi gynnwys cyn-aelodau a chyn-gyflogeion yr awdurdod y’u hetholwyd iddo’n flaenorol neu y’u cyflogwyd ganddo’n flaenorol. Mae’r Rheoliadau’n mewnosod cyfnodau aros rhwng gwasanaethu ar yr awdurdod a dod yn aelod annibynnol, a hynny ar gyfer cyn-aelodau a chyn-gyflogeion yr awdurdod neu’r cyd-bwyllgor corfforedig.

3.10 Gosodir cyfnod aros o ddwy flynedd pan fo cyn-aelod yn dymuno dod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau awdurdod yr oedd yn aelod ynddo, ac eithrio pan fo’r cyn-aelod wedi dal swydd uwch, swydd gabinet neu swydd weithredol yn yr un awdurdod, ac yn yr achos hwnnw mae’r cyfnod aros yn bum mlynedd.

3.11 Pan fu’r cyn-aelod yn aelod o gyd-bwyllgor corfforedig, neu o awdurdod cyfansoddol neu awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol o’r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw, gosodir cyfnod aros o ddwy flynedd cyn y gall y cyn-aelod ddod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau y cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw, ac eithrio, pan fo’r cyn-aelod wedi dal swydd uwch, swydd gabinet neu swydd weithredol mewn awdurdod cyfansoddol o’r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw, mae’r cyfnod aros yn bum mlynedd.

3.12 Gosodir cyfnod aros o ddwy flynedd pan fo cyn-swyddog yn dymuno dod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau awdurdod y mae wedi dal swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol neu swydd swyddog cofrestru ynddo. Mae’r un cyfnod aros yn gymwys mewn cysylltiad â gallu cyn-swyddog i ddod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau cyd-bwyllgor corfforedig pan fo’r cyn-swyddog wedi dal swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol yn y cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw, neu mewn awdurdod cyfansoddol neu awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol o’r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw, neu wedi dal swydd swyddog cofrestru mewn awdurdod cyfansoddol o’r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw.

3.13 Mewnosodir diffiniadau o “swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol”, “swyddog cofrestru” a “swydd uwch, swydd gabinet neu swydd weithredol” yn Rheoliadau 2001.

3.14 Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn benderfynu negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Yr amcan wrth roi'r polisi hwn ar waith drwy ddeddfwriaeth yw creu Cymru fwy cyfartal, lle y gall pawb gyfranogi, cyrraedd ei botensial llawn a chyfrannu'n llwyr at ddemocratiaeth, pethau a fydd yn galluogi Cymru i fod yn fwy cynhwysol ac yn fwy ymatebol i anghenion yr holl bobl yng Nghymru.

4.2 Mae cynwysoldeb, o ran pwy sy'n sefyll fel ymgeiswyr i'w hethol neu i'w penodi i swydd gyhoeddus, yn effeithio ar bob rhan o'r gymdeithas ac mae'n bwysig o ran adeiladu system ddemocrataidd deg, cynrychioliadol ac effeithiol. Mae penderfyniadau a wneir gan gyrff etholedig yn effeithio ar bawb ar draws amrywiaeth y boblogaeth. Pan fydd pobl yn eu gweld eu hunain yn cael eu cynrychioli mewn gwleidyddiaeth, maent yn fwy tebygol o ymddiried yn y broses ddemocrataidd ac o ymwneud â hi. Mae hyn yn cryfhau cyfranogiad y cyhoedd ac yn cefnogi prosesau penderfynu sy'n adlewyrchu barn y cymunedau y mae aelodau'n eu gwasanaethu.

4.3 Mae'r Cod yn atgyfnerthu'r gofyniad i fynd ati i ystyried pob nodwedd warchodedig yn ystod prosesau penderfynu a'r holl waith arall a gynhelir gan gynrychiolwyr etholedig. Mae'n cefnogi camau i hyrwyddo tegwch, cynhwysiant, a pharch at gydraddoldeb. Wrth i bolisïau sy'n ymwneud â chydraddoldeb esblygu, rhaid i gynghorwyr sicrhau bod yr ystod lawn o nodweddion gwarchodedig yn cael eu hadlewyrchu mewn dadleuon a phrosesau penderfynu.

4.4 Yn ogystal, o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd ynghylch Anghydraddoldebau Economaidd-gymdeithasol) (Cymru) 2021 ("Rheoliadau 2021"), mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod Gweinidogion Cymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, a chyrff penodedig eraill yng Nghymru, yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd o dan adran 1 o Ddeddf 2010 i ystyried sut y gallai eu penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol, megis penderfynu ar flaenoriaethau a phennu amcanion.

4.5 Mae'r Rheoliadau hyn yn sicrhau bod y termau a ddefnyddir yn y Cod yn esblygu ochr yn ochr â'r termau nodweddion gwarchodedig a'r gofynion o ran dyletswyddau economaidd-gymdeithasol yn Neddf 2010. Byddant yn diwygio Gorchymyn 2008 a Gorchymyn 2001 er mwyn iddynt fod yn gyson â'r ddeddfwriaeth gyfredol.

4.6 Canlyniad hyn fydd sicrhau bod codau ymddygiad awdurdodau perthnasol yn gyson â'r ddeddfwriaeth cydraddoldeb gyfredol, a sicrhau

bod deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r fframwaith moesegol yn barod at y dyfodol os gwneir unrhyw newidiadau pellach i'r adrannau perthnasol o Ddeddf 2010.

4.7 Oni wneir y newidiadau hyn, mae perygl y gallai awdurdodau perthnasol sy'n gweithredu o dan y gyfundrefn ddeddfwriaethol gyfredol fethu ag ystyried y rhestr ehangach o nodweddion gwarchodedig neu fethu ag ystyried y dyletswyddau economaidd-gymdeithasol yn llwyr. Mae'r Rheoliadau hyn yn gorfodi disgwyliadau.

4.8 Mae sicrhau bod pawb yn gallu gwasanaethu mewn trefniadau democrataidd yn hanfodol i ddemocratiaeth gynrychioliadol, iach. Ni ddylai fod gwaharddiadau ar bwy all gyfranogi oni bai bod rheswm da. Ar hyn o bryd, mae Rheoliadau 2001 yn rhoi gwaharddiad oes ar gyn-gyflogeion a chyn-aelodau o awdurdod perthnasol rhag gwasanaethu fel aelod annibynnol o bwyllgor safonau'r awdurdod neu'r cyd-bwyllgor corfforedig yr oeddent yn cael eu cyflogi ganddo'n flaenorol neu yr oeddent yn aelod ohono'n flaenorol. Mae'r dull hwn o weithredu'n lleihau nifer y bobl â phrofiad addas a allai fod yn aelodau o bwyllgorau safonau, ac nid yw'n waharddiad y gellir ei gyfiawnhau.

4.9 Mae'r ddeddfwriaeth hon yn dileu'r gwaharddiad oes yn Rheoliadau 2001, gan gyflwyno mwy o hyblygrwydd o ran pwy y gellir ei benodi i bwyllgorau safonau. Dylid ystyried addasrwydd ac annibyniaeth aelod ar sail unigol pan y'i penodir. Mae mesurau diogelu'n bwysig ar gyfer aelodau, yr awdurdod a'r cyhoedd i gefnogi tryloywder. Yn ogystal â'r trefniadau llywodraethiant arferol sy'n ystyried gwrthdaro buddiannau pan benodir aelodau i bwyllgor ac yn ystod cyfarfodydd, dylai cyfnod priodol fynd heibio mewn achosion penodol, fel a ganlyn:

4.9.1 cyfnod aros o ddwy flynedd pan fo cyn-gyflogai wedi dal swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol yn yr awdurdod neu'r cyd-bwyllgor corfforedig, neu wedi dal swydd swyddog cofrestru yn yr awdurdod;
4.9.2 cyfnod aros o bum mlynedd pan fo cyn-aelod wedi dal swydd uwch, swydd gabinet neu swydd weithredol yn yr awdurdod neu mewn awdurdod cyfansoddol o'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw;
4.9.3 cyfnod aros o ddwy flynedd ar gyfer cyn-aelod o'r awdurdod neu'r cyd-bwyllgor corfforedig nad yw wedi dal un o'r swyddi a restrir uchod.

## 5. Ymgynghori

5.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol am gyfnod o 12 wythnos ynghylch argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol yng Nghymru (adroddiad Richard Penn) pan ddaeth safbwyntiau i law am ystod eang o ystyriaethau o ran y fframwaith moesegol. Roedd y rhain yn cynnwys cysoni'r nodweddion gwarchodedig a'r egwyddor cydraddoldeb a pharch yn rheoliadau'r fframwaith moesegol â Deddf 2010, a gwneud newidiadau i'r

gwaharddiad sy'n atal cyn-gyflogeion a chyn-aelodau rhag gwasanaethu fel aelodau annibynnol o'r awdurdod y buont yn ei wasanaethu'n flaenorol. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Mehefin 2023.

5.2 Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Tachwedd 2023.

5.3 O blith y 31 ymateb i'r ymgynghoriad a ddaeth i law, bu i 29 ymateb i'r cwestiwn ynghylch a ddylid diwygio'r rheoliadau perthnasol sy'n ymwneud â'r Fframwaith Safonau Moesegol er mwyn iddynt fod yn gyson â'r diffiniadau sy'n ymwneud â nodweddion gwarchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010, ac a ddylem ddiwygio'r diffiniad o'r egwyddor cydraddoldeb a pharch yn adran 7 o Orchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001 (legislation.gov.uk). Ni fu i ddau o'r ymatebwyr fynegi barn y naill ffordd na'r llall. Roedd 100% o'r 29 ymatebydd i'r cwestiwn hwn yn cytuno â'r cynnig hwn.

5.4 O blith y 31 ymateb i'r ymgynghoriad a ddaeth i law, bu i 26 ymateb i'r cwestiwn a oeddent yn cytuno y dylid dileu'r gwaharddiad oes sy'n atal cyn-gyflogeion cynghorau rhag gwasanaethu fel aelodau annibynnol o bwyllgorau safonau eu cyn-gyflogwr. Roedd 65% o'r 26 ymatebydd i'r cwestiwn hwn yn cytuno y dylid dileu'r gwaharddiad.

5.5 O blith y 31 ymateb i'r ymgynghoriad a ddaeth i law, bu i 25 ymateb i'r cwestiwn a oeddent yn cytuno y dylid dileu'r gwaharddiad oes sy'n atal cyn-gynghorwyr rhag gwasanaethu fel aelod annibynnol o bwyllgor safonau'r cyngor y'u hetholwyd yn gynghorydd ynddo. O blith y 25 a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 52% yn cytuno y dylid dileu'r gwaharddiad oes ac roedd 48% yn anghytuno.

5.6 Roedd yr awgrymiadau o ran cyfnod gras ar gyfer cynghorwyr sy'n gwasanaethu fel aelod annibynnol o bwyllgor safonau'r cyngor y buont yn gwasanaethu ynddo yn amrywio o un i bum mlynedd, gydag ystyriaethau o ran yr angen am i'r cyfnodau aros ar gyfer swyddi uwch/cabinet/gweithredol fod yn hirach na'r rheini ar gyfer aelodau na fuont yn gwasanaethu yn y swyddi hynny.

5.7 Yn ychwanegol at yr ymgynghoriad cyhoeddus llawn, fel sy'n ofynnol o dan adrannau 49(5) a 50(5) o Ddeddf 2000, ymgysylltwyd â chyrff perthnasol yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst 2025 ynghylch y newidiadau arfaethedig i Orchmynion 2001 a 2008. Roedd yr ymgysylltu hwn yn cynnwys y cynnig i gynnwys cyfeiriad at y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn y ddau Orchymyn, a'r cynnig i ychwanegu cyn-gyflogeion a chyn-aelodau o awdurdodau perthnasol fel aelodau annibynnol o bwyllgorau safonau'r awdurdod y buont yn gwasanaethu ynddo.

5.8 Cafodd ystyriaethau a chyfraniadau'r rhanddeiliaid eu dadansoddi. Roedd rhanddeiliaid yn cytuno y dylai'r darpariaethau ar gyfer nodweddion gwarchodedig a dyletswyddau economaidd-gymdeithasol

fod yn gyson â’r ddeddfwriaeth cydraddoldeb gyfredol.

5.9 Er bod rhywfaint o bryder wedi ei fynegi ynghylch y cyfnod gras o ran cyn-gyflogeion a chyn-aelodau yn gwasanaethu ar bwyllgor safonau awdurdod y buont yn gwasanaethu ynddo, roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno na ddylid cadw’r gwaharddiad oes mwyach.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

## 6. Yr opsiynau

### Diwygiadau i Orchymyn 2008 a Gorchymyn 2001

Gwneud dim:

6.1.1 Gallai hyn gynyddu'r risg y gallai aelodau beidio â chymhwyso'r holl nodweddion gwarchodedig a/neu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i'w gweithgareddau neu beidio â'u cymhwyso'n gywir pan fo'r diffiniadau hyn yn esblygu. Pe na chaent eu cymhwyso gan aelodau, gallai danseilio'r broses ddemocrataidd.

Diwygio'r Gorchmynion:

6.1.2 Byddai hyn yn cysoni Gorchymyn 2001 a Gorchymyn 2008 â'r diffiniad o nodweddion gwarchodedig yn adran 4 o Ddeddf 2010, ac yn cysoni'r ddau Orchymyn hyn â'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol o dan adran 1.

6.1.3 Byddai hyn yn darparu cysondeb o ran y dull o weithredu ymhlith awdurdodau perthnasol, gan ei bod yn bosibl bod rhai ohonynt wedi bod yn gweithredu o fewn ffocws y rheoliadau presennol tra mae eraill wedi ehangu eu ffocws i gynnwys yr ystod ehangach o nodweddion gwarchodedig. Er bod rhai prif gynghorau wedi gwneud newidiadau mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig, gwnaed hyn fel arfer gorau ac nid fel gofyniad cyfreithiol. Ni fyddai datrysiadau anneddfwriaethol wedi galluogi'r amcanion polisi i fod yn ofyniad.

### Diwygiadau i Reoliadau 2001

Gwneud dim:

6.1.4 Byddai hyn yn cadw'r gronfa o aelodau annibynnol fel y mae ar hyn o bryd, gan beri na all cyn-gyflogeion na chyn-aelodau o gyngor wasanaethu fel aelodau o bwyllgorau safonau'r awdurdod perthnasol yr oeddent yn cael eu cyflogi ganddo neu yr oeddent yn aelod ohono yn flaenorol. Byddai hyn yn peri i annhegwch cydnabyddedig y system bresennol, a'r diffyg cyfiawnhad dros gymhwyso gwaharddiad amhenodol, barhau.

Diwygio'r rheoliadau:

6.1.5 O godi'r gwaharddiad, byddai'n galluogi'r rheini a chanddynt brofiad blaenorol o weithio ym maes llywodraeth leol i ddefnyddio eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiad i lywio gwaith y pwyllgorau safonau. Yn ogystal, mae'r gofynion cyfreithiol cyfredol yn atal y gronfa o aelodau annibynnol sydd ar gael rhag cael ei hehangu drwy

i gyn-gyflogeion a chyn-gynghorwyr yr awdurdod wasanaethu ar bwyllgorau safonau. Drwy ychwanegu cyfnodau aros yn lle gwaharddiadau amhenodol, y bwriad yw ceisio lliniaru unrhyw bryderon o ran annibyniaeth unigolion sy'n craffu ar benderfyniadau y gallent fod wedi bod yn rhan ohonynt. Bydd y trefniadau llywodraethiant presennol ar gyfer gwrthdaro buddiannau yn parhau i fod yn gymwys.

## 7. Costau a manteision

Gwneud dim:

7.1 Hwn yw'r opsiwn sylfaenol ac, i'r perwyl hwnnw, nid oes dim costau na manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

Diwygio'r Gorchmynion a Rheoliadau 2001

7.2 Defnyddiwyd adnodd staff Llywodraeth Cymru ar gyfer y gwaith o lunio'r polisi a gwneud is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae'r gost sy'n gysylltiedig â'r adnodd staff hwnnw bellach yn gost suddedig ac felly ni chaiff ei hystyried yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

Eraill yr effeithir arnynt:

7.3 Mae diwygio'r ddeddfwriaeth yn cyflwyno mwy o gategorïau o bobl sy'n gallu gwasanaethu ar bwyllgorau safonau ac yn sicrhau bod yr holl nodweddion gwarchodedig a'r dyletswyddau economaidd-gymdeithasol yn cael sylw mewn deddfwriaeth a chodau ymddygiad.

7.4 Mae'r diwygiadau i'r Rheoliadau hyn yn effeithio ar brif gynghorau, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub, gan eu bod yn ei gwneud yn ofynnol i'w codau ymddygiad fod yn gyson â Deddf Cydraddoldeb 2010 mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol.

7.5 Bydd yn ofynnol i holl aelodau etholedig neu gyfetholedig y cyrff hyn, ac awdurdodau perthnasol eraill, megis cynghorau tref a chymuned, gydymffurfio â'r codau ymddygiad diwygiedig.

7.6 Diwygiadau i'r cod ymddygiad: Bydd yn ofynnol gwneud diweddariadau gweinyddol i ddiwygio codau ymddygiad a bydd yn ofynnol i'r diwygiadau hynny gael eu cymeradwyo. Bydd hyn yn gofyn am ychydig bach o amser staff presennol ym mhob sefydliad, ond ni ddisgwylir y bydd yn ofynnol gwario unrhyw arian ychwanegol. At hyn, rhaid i awdurdodau sicrhau bod nodweddion gwarchodedig a dyletswyddau economaidd-gymdeithasol yn cael eu hystyried a'u hadlewyrchu'n briodol yn eu busnes a'u gweithrediadau. Mae diwygio codau a sicrhau bod yr holl nodweddion gwarchodedig a dyletswyddau economaidd-gymdeithasol yn cael eu cynnwys mewn hyfforddiant perthnasol a

gwybodaeth berthnasol yn ddefnydd buddiol o adnoddau. Mae’r canlyniad gwell, o ran sicrhau bod y nodweddion a’r dyletswyddau hynny’n cael eu deall a’u cymhwyso’n well wrth gyflawni dyletswyddau aelodau, yn cyfiawnhau’r costau cyfle.

7.7 Ehangu aelodau pwyllgorau safonau: Mae’r diwygiad yn dileu’r cyfyngiad oes sy’n atal cyn-aelodau a chyn-swyddogion rhag gwasanaethu fel aelodau annibynnol o bwyllgorau safonau. Fodd bynnag, nid yw’n newid nifer aelodau’r pwyllgorau na’r prosesau recriwtio a phenodi. Bydd y trefniadau llywodraethiant presennol ar gyfer penodi aelodau o bwyllgorau safonau yn parhau heb eu newid. Ni ddisgwylir y bydd gwariant ychwanegol ar staffio mewn awdurdodau perthnasol, ond gall fod costau cyfle drwy waith craffu ychwanegol o ran annibyniaeth.

7.8 Manteision disgwyliedig:

- Gwella ymwybyddiaeth ddiwylliannol mewn prosesau democrataidd drwy gynyddu parch at nodweddion gwarchodedig a dyletswyddau economaidd-gymdeithasol.
- Lleihau nifer y cwynion yn erbyn aelodau o ran nodweddion gwarchodedig ac ystyriaethau economaidd-gymdeithasol, gan ganiatáu i wasanaethau democrataidd a phwyllgorau safonau ganolbwyntio eu hadnoddau ar fynd ati i wella llywodraethiant a safonau moesegol.
- Ehangu’r profiad a’r safbwyntiau ar bwyllgorau safonau drwy gynyddu nifer yr aelodau annibynnol sydd ar gael.

## 8. Asesiad cystadleuaeth

8.1 Nid yw’r opsiynau polisi’n effeithio ar fusnesau, elusennau na’r sector gwirfoddol.